**Rheolau Mynwentydd Cyhoeddus Llangernyw, Gwytherin a'r Garnedd**

1. Rhaid rhoi rhybudd o gladdedigaeth o leiaf deuddydd cyn y gladdedigaeth a hynny rhwng 9yb a 4yp yn swyddfa Clerc y Cyngor Cymuned. Oddieithr mewn achosion arbennig rhaid i'r rhybudd fod ar y ffurflen ddarparedig, gellir cael honno o swyddfa'r Clerc.

2. Derbynnir rhybudd o gladdedigaeth ar y ffôn, cyhyd ag y'i cadarnheir wedi i'r ffurflen briodol gael ei llenwi.

3. Rhaid i bob ffi ariannol ynglŷn â chladdu gael ei thalu i swyddfa'r Clerc o fewn pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl y claddedigaeth. Ni chyfrifir yn ddilys unrhyw dderbynneb am unrhyw arian a delir ond a rodder yn swyddogol gan y Clerc.

4. Rhaid i bob tystysgrif gael ei chyflwyno i'r Clerc diwrnod yr angladd neu o fewn saith diwrnod.

5. Rhaid i'r person neu bersonau ynglŷn ar angladd wneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau presenoldeb person cymwys. Gellir claddu yn ôl unrhyw ddefod grefyddol a ddewisio'r person neu'r personau hynny.

6. Rhaid claddu ym mhob lle bedd yn y drefn, fel y nodir y lleoedd hynny yn y Cynllun o'r Fynwent sydd i'w weld yn swyddfa'r Clerc.

7. Ni ellir, heb ganiatâd arbennig gynnal angladd cyn 11yb na ar ôl 3yp yn ystod misoedd Tachwedd, Rhagfyr, Ionawr a Chwefror, na chyn 11yb nac ar ôl 4yp yn ystod misoedd eraill y flwyddyn. Ni chaniateir claddu ar y Sul oddieithr mewn argyfwng neu trwy gennad y Cyngor Cymuned.

8. Ni chaniateir rhoi maen na phriddfaen mewn, nac ar, unrhyw fedd, na chodi na dodi unrhyw gofadail, beddgist na maen llorwedd ar, neu uwchben, unrhyw fedd, ond y bo'r llwyr a'r unig hawl i gladdu ynddo wedi ei brynu ymlaen llaw.

9. Ni chodir tâl am gladdedigaeth plentyn o dan 16$^{eg}$ oed.

10. Bydd y bedd yn cael ei hagor gan bersonau penodol a apwyntiwyd gan Gyngor Cymuned a dylai'r Trefnydd Angladdau gysylltu â'r Cyngor i wneud y trefniadau.

11. Gwaherddir claddu unrhyw gorff mewn beddgell na bedd muriedig os na chaeir ar yr arch ar ei phen ei hun mewn dull anhydraidd i awyr, sef drwy staplu maen neu lechfaen wedi ei smentio'n briodol, ac nad ydynt fyth i'w styrbio.

12. Caniateir codi cofadeiliau neu benfeini yn unig, ond dylid yn y lle cyntaf anfon i'r Clerc fraslun yn dangos y mesuriadau, yr arysgrif a disgrifiad o'r garreg, er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor Cymuned.

13. Ni fydd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am unrhyw ddamwain i gofadail na beddfaen a achosir gan stormydd, llifogydd, gwynt, mellt, daeargwymp neu unrhyw achos oddieithr esgeulustod ar eu rhan eu hunain.

14. Rhaid i berchnogion cofadeiliau, tabledi coffa, beddfeini, blodau, llwyni a phob claddle gadw'r cyfryw yn drefnus ac mewn cyflwr da. Yn niffyg hynny bydd y Cyngor Cymuned â'r hawl i benodi rhywun i wneud y gwaith a chodi tâl ar y perchenogion yn ôl maint a natur y gwaith.

15. Rhaid i'r personau a fo ynglŷn â threfnu angladd wneud y trefniadau angenrheidiol i symud cofadeiliau, beddgistiau neu feini llorwedd i bwrpas ail agor bedd.

16. Ni chaniateir gosod cerbiau, na phlannu planhigion na blodau na gosod unrhyw addurniadau eraill ar y bedd. Caniateir blodau yn taro ar y penfaen. Cedwi'r Cyngor Cymuned yn ei law ei hun i godi a symud unrhyw lwyni, planhigion, blodau oddi ar unrhyw fedd, pan fônt yn rhwystr i gadw'r fynwent yn daclus.

17. Cedwir cofrestr o gladdedigaethau yn swyddfa'r Cyngor. Gellir gwneud ymchwiliadau yno ar bob adeg resymol a gellir cael dyfyniadau ardystiedig o'r gofrestr, ond talu'r tâl penodedig, sef £1 am bob blwyddyn yr ymchwilir iddi.

18. Rhaid trosglwyddo Tystysgrif Cofrestrydd neu Orchymyn Crwner i gladdu i'r sawl sy'n claddu neu weinyddu'r gwasanaeth angladdol. Rhaid gwneud

hyn yn y Gladdfa ar adeg y gladdedigaeth. Wedi'r gladdedigaeth dylid cyflwyno'r dystysgrif naill ai i'r Gofalwr neu i Glerc y Cyngor Cymuned.

19. Ni chaniateir gwasgaru llwch o fewn terfynau'r fynwent, ond gellir claddu llwch mewn bedd neu randir wedi ei neilltuo gan y Cyngor, ond rhaid rhoddi pedwar awr ar hugain o rybudd i Glerc y Cyngor. Rhoddir caniatâd i gladdu llwch mewn bedd llawn maint i'r dyfnder y cleddir eirch.

20. Ni chaniateir cŵn yn y mynwentydd oni bai am gŵn tywys.

21. Darperir bin ar gyfer gwastraff fel rhithoedd a gwastraff cyffredinol arall arwahân i wastraff gwyrdd.

22. Cedwi'r Cyngor Cymuned yr hawl i adolygu ac amrywio'r Rheolau a'r Amodau uchod o bryd i'w gilydd.

**Aelodau Pwyllgor Mynwentydd Cymuned Llangernyw, Ionawr 2024**